# CROESO I
# lythyr newyddion Cyntaf Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin ‘Llais Sir Gâr’

**Mae Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin yn fenter gyffrous o ymgynghori a ddatblygwyd mewn partneriaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Heddlu Dyfed-Powys a Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin. Fe’i sefydlwyd fis Ebrill 2001 mewn cydweithrediad â chwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol, Opinion Research Services (ORS). Mae’r Panel yn cynnwys 1,200 o drigolion y sir sydd i bob pwrpas yn cynrychioli poblogaeth Sir Gaerfyrddin, sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil bellach.**

## DIBEN Y PANEL DINASYDDION

Dymunwn wrando ar eich barn am y gwasanaethau a’r materion sy’n effeithio arnoch yn eich bywyd pob dydd. Rydym oll yn ymrwymedig i wella ein gwasanaethau gan geisio sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion a’ch disgwyliadau.

Bydd y farn a fynegir yn Llais Sir Gâr yn cael cylchrediad eang drwy’r partner sefydliadau, a bydd yn gymorth i sefydlu ‘banc’ o wybodaeth am farn pobl Sir Gaerfyrddin. Bydd yn galluogi olrhain agweddau a safbwyntiau dros gyfnod o amser, ac ymchwilio i farn defnyddwyr gwasanaethau penodol yn ogystal â barn y rhai nad ydynt yn defnyddio’r gwasanaethau hynny.

## PAM ‘LLAIS SIR GÂR?’

Yn yr arolwg recriwtio a lenwoch yr haf diwethaf, gofynnwyd i chi ddewis yr enw a ffafriwyd gennych ar gyfer y Panel o blith rhestr o bedwar.

**Dewisodd mwy na hanner o’r** rhai a ymatebodd **(51%)** yr enw **‘Llais Sir Gâr’**,

dewisodd **25%** **‘Barn Sir Gaerfyrddin’**,

dewisodd **15%** **‘Sir Gaerfyrddin yn Ymgynghori’**

a dewisodd **9%** **‘Sir Gaerfyrddin yn Siarad’**.

## MANYLION AM BANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

- **1,200 o aelodau**, 620 yn fenywod a 580 yn ddynion.
- Mae’r **aelod ieuengaf o’r Panel yn 17** a’r hynaf yn 95.
- Mae 83% o aelodau’r Panel wedi bod **yn byw yn Sir Gaerfyrddin am dros 10 mlynedd** ac mae 2% wedi bod yn byw yma am llai na blwyddyn.
- Nododd 38% o aelodau’r Panel bod rhywun yn eu cartref yn dioddef o **salwch tymor hir, anabledd neu lesgedd**.
- Mae 15% o aelodau’r Panel ag un **plentyn o leiaf yn eu cartref sy’n mynychu ysgol gynradd** yn Sir Gaerfyrddin, a 16% ag un plentyn o leiaf yn mynychu ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae 49.4% o aelodau’r Panel Dinasyddion **yn siarad Cymraeg**, 43.6% yn darllen Cymraeg a 33.8% **yn ysgrifennu Cymraeg**.



PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

RHIFYN 1 – MAWRTH 2002

## AROLWG PANEL 1
## (Awst - Medi 2001)

**Derbyniwyd 902 o atebion gennym i'r arolwg hwn oedd yn gyfradd ymateb o 75%**

# Adolygiadau Gwasanaeth Gwerth Gorau Cyngor Sir Caerfyrddin - A ydych yn cael Gwerth Gorau?

**Menter gan y Llywodraeth yw Gwerth Gorau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn ôl safonau clir - o ran costau ac o ran safon - ac yn ôl y modd mwyaf effeithiol, economaidd ac effeithlon posibl.**

Wrth gynnal Adolygiadau Gwerth Gorau, rhoddir pwyslais arbennig ar sicrhau bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cymryd rhan drwy ymgynghori. Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yw drwy "Llais Sir Gâr".

Ar ddiwedd pob adolygiad pennir targedau manwl ar gyfer gwelliant parhaus yn y gwasanaeth. Mae'r targedau hyn yn cael eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau a gymerir i sicrhau y gwireddir y targedau. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cynnwys mecanwaith ar gyfer monitro ac adolygu'r targedau.

Mae Gwasanaeth Arolygu y Comisiwn Archwilio yn arolygu adolygiadau'r Awdurdodau i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu rhedeg yn dda a gweld ble mae lle i wella. Ar ddiwedd pob arolwg cyhoeddir adroddiad. Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhagoriaethau a gwendidau'r gwasanaeth a'r camau sydd angen eu cymryd i wella'r gwasanaeth.

Yn Arolwg 1 gofynnwyd am eich barn ar y gwasanaethau canlynol sy'n cael Adolygiad Gwerth Gorau:

- **Gwasanaethau Eiddo**
- **Gwasanaethau Democrataidd**
- **Gwasanaeth Twristiaeth**
- **Gwasanaethau Bwrdeistrefol**
- **Refeniw**
- **Gwasanaethau Etholiadol**
- **Cynnal a Chadw Ffyrdd**
- **Trwyddedu**
- **Gwasanaethau Diwylliannol**
- **Rheoli Datblygu a Gorfodaeth**
- **Anabledd Dysgu a Gwasanaethau i'r Henoed**

## Camau Gweithredu

Mae eich barn a'ch sylwadau wedi'u dosbarthu i'r gwahanol wasanaethau perthnasol o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin ac maent bellach yn gweithio ar eu Cynlluniau Gweithredu. Bydd crynodebau o'r Adolygiadau Gwasanaeth Gwerth Gorau a'r Cynlluniau Gweithredu yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu perthnasol Cyngor Sir Caerfyrddin dros yr ychydig fisoedd nesaf yma. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniadau Arolwg 1, a pha gamau a gymerwyd yn sgîl Adolygiadau Gwerth Gorau mewn llythyrau newyddion "Llais Sir Gâr" yn y dyfodol.

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

# AROLWG PANEL 2
## (Hydref - Tachwedd 2001)

**Derbyniwyd 807 o atebion gennym i'r arolwg hwn oedd yn rhoi cyfradd ymateb o 67%**

# Diogelwch Cymunedol

Fel rhan o'r Ddeddf Troseddu ac Anhrefn, mae heddluoedd ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i ostwng lefelau troseddu a dychryn troseddu, ac i wella diogelwch ledled y gymuned. Fel rhan o'r ymdrechion hyn, mae'r partneriaid yn cynhyrchu strategaeth tair blynedd ar sut i ostwng troseddu ac anhrefn.

Mae rhan o'r strategaeth hon yn dod o ddadansoddiad manwl o ystadegau troseddu ac ystadegau eraill, ond mae rhan hefyd yn dod o farn y gymuned.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin a Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio canlyniadau ymatebion "Llais Sir Gâr" i'w helpu i lywio'r ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yma. Mae dogfen ymgynghorol (Archwiliad Troseddu ac Anhrefn) ar fin cael ei chwblhau, a bydd y strategaeth lawn ar gael fis Mehefin 2002. Bydd yr ymgynghori a wnaed drwy "Llais Sir Gâr" yn help i ffurfio blaenoriaethau a pholisïau yn y strategaeth hon.

- **Gofynnom nifer o** gwestiynau i chi am ddiogelwch cymunedol, gan gynnwys pa mor bryderus yr oeddech am rai materion neilltuol. **Dywedoch wrthym** eich bod yn fwyaf pryderus am y canlynol:

1. **Ceir yn goryrru**
   **(roedd 79.8% naill ai yn eithaf pryderus neu yn bryderus iawn)**
2. **Sbwriel a gwastraff**
   **(roedd 76.1% naill ai yn eithaf pryderus neu yn bryderus iawn)**
3. **Delio mewn cyffuriau**
   **(roedd 69.9% naill ai yn eithaf pryderus neu yn bryderus iawn)**
4. **Yfed dan oedran**
   **(roedd 63.9% naill ai yn eithaf pryderus neu yn bryderus iawn)**

- **Gofynnom pa** mor ddiogel y teimlwch yn yr ardal lle'r ydych yn byw yn ystod y dydd ac ar ôl iddi nosi.

**Dywedoch...**

### YN YSTOD Y DYDD

**dywedodd 93.5% eu bod yn teimlo'n ddiogel**




### AR ÔL IDDI NOSI

**dywedodd 71.7% eu bod yn teimlo'n ddiogel**




**Yn eich ardal leol, a ydych o'r farn bod safon byw ar y cyfan wedi gwella, wedi gwaethygu neu wedi aros yr un fath dros y 12 mis diwethaf?**

- Dywedodd y mwyafrif ohonoch (80.2%) bod safon byw ar y cyfan yn eich ardal leol wedi aros yr un fath yn y 12 mis diwethaf.




**Sut yn eich barn chi y mae lefelau troseddu ac anhrefn yn eich ardal yn cymharu â'r cyfartaledd ym Mhrydain?**

- Dywedodd dros dri chwarter ohonoch (75.2%) mewn ateb i gwestiwn bod lefel troseddu ac anhrefn yn eich ardal yn is neu lawer yn is o'i gymharu â'r cyfartaledd ym Mhrydain.



## AROLWG TRI

Mae'r arolwg sy'n amgaeedig gyda'r llythyr newyddion hwn yn gofyn am eich barn am ddau fater sef pa mor hwylus yw cael cymorth/cyngor cyfreithiol, a chyfleusterau yn y llyfrgelloedd. I'n galluogi ni i barhau i wrando ar eich barn a gweithredu ar y farn honno,a fyddech gystal â llenwi arolwg tri a'i ddychwelyd yn yr amlen RHADBOST a ddarperir.

## AROLYGON YN Y DYFODOL

Cynhelir yr arolwg nesaf yn ystod mis Mai 2002. Os oes unrhyw syniadau gennych am faterion i gynnal arolwg Panel Dinasyddion yn eu cylch, a fyddech gystal â llenwi'r cwestiwn perthnasol ar yr holiadur.

## 'LLAIS SIR GÂR' AR Y WE

Mae gwybodaeth am *Lais Sir Gâr* yn awr ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.
I gael golwg, ewch i www.sirgar.gov.uk a chwiliwch am Llais Sir Gâr.

## ADBORTH

Mae diddordeb gennym mewn clywed eich barn am y llythyr newyddion hwn. I roi eich sylwadau ar y llythyr newyddion, a fyddech gystal â llenwi'r cwestiwn perthnasol ar yr holiadur.

Os oes unrhyw sylwadau gennych ar unrhyw agwedd ar y Panel Dinasyddion, a fyddech gystal â chysylltu â:

**Ruth Lake**
Cydgysylltydd Ymgynghori
Uned Gyfathrebu
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Rhif ffôn:
**(01267) 224469**

Ffacs:
**(01267) 221737**

E-bost:
**ymgynghori@sirgar.gov.uk**

Da iawn chi am eich holl ymdrechion ar ran y tri sefydliad partner,
**DIOLCH!**



Cyngor Sir Caerfyrddin
Carmarthenshire County Council

Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Local Health Group

# PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN